contact For families with disabled children I deuluoedd gyda phlant anabl

**Mwy Am Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i'ch plentyn: Gofal a Symudedd**

Lwfans Byw i'r Anabl ('y Lwfans' neu DLA) yw'r prif fudd-dal i'ch helpu chi i dalu am gostau ychwanegol i ofalu am eich plentyn.

Mae dwy ran i'r Lwfans i blant, sy'n cael eu galw yn gydrannau:

- Mae rhan neu gydran gofal y Lwfans yn cael ei thalu os oes angen llawer o ofal neu gymorth ychwanegol ar eich plentyn.

- Mae'r rhan neu'r gydran symudedd yn cael ei thalu os oes angen help ar eich plentyn i symud o gwmpas.

Efallai y bydd eich plentyn yn gallu cael arian ar gyfer un gydran, neu'r ddwy.

**Mwy am gydran gofal y Lwfans**

Gall plentyn gael **cydran** gofal y Lwfans o dri mis oed neu o enedigaeth os oes gan y plentyn salwch terfynol.

Mae'r gydran gofal yn cael ei thalu ar dair gyfradd wahanol:

- Isaf

- Canol

- Uchaf

Bydd y gyfradd sy'n cael ei thalu i chi yn dibynnu ar:

- Faint o ofal a chefnogaeth ychwanegol sydd ei angen ar eich plentyn gyda gofal personol fel gwisgo, golchi, defnyddio'r toiled, bwyta a chefnogaeth emosiynol.

- Os oes angen y gofal a'r gefnogaeth ychwanegol yn ystod y dydd neu'r nos, neu'r dydd a'r nos.

Efallai y bydd eich plentyn yn cael gofal ar y gyfradd isaf os oes angen gofal a chefnogaeth ychwanegol gyda gofal personol am rywfaint o'r dydd.

Efallai y bydd eich plentyn yn cael gofal ar y gyfradd ganol os oes angen gofal ychwanegol yn ystod y dydd **neu'r** nos.

Efallai y bydd eich plentyn yn cael gofal ar y gyfradd uchaf os oes angen gofal ychwanegol yn ystod y dydd **a'r** nos, neu'n derfynol wael.

**Mwy am Gydran Symudedd y Lwfans**

Mae cydran symudedd y Lwfans yn cael ei thalu i blant sydd angen help i symud o gwmpas.

Mae'n cael ei thalu ar ddwy gyfradd:

- Is

neu

- Uwch

Mae'r gyfradd y mae eich plentyn yn ei chael yn dibynnu ar ba gymorth ychwanegol sydd ei angen i fynd o gwmpas.

**Cyfradd is**

Efallai y bydd eich plentyn yn cael y gydran symudedd ar y gyfradd is os:

- Mae'n gallu cerdded ond angen cymorth
- Mae angen rhywun i wylio dros y plentyn allan yn yr awyr agored.

Mae cyfradd is y gydran symudedd yn gallu cael ei thalu o bump oed.

**Cyfradd uwch**

Efallai y bydd eich plentyn yn cael cyfradd uwch y gydran symudedd os:

- Tydyn nhw methu cerdded neu 'bron yn methu cerdded'
- Dim ond pellter byr y gall gerdded heb deimlo'n ofnadwy o anghyfforddus
- Mae'n mynd yn sâl iawn wrth geisio cerdded.
- Mae'n fyddar, yn ddall neu â nam difrifol ar y golwg.
- Gall rhai plant ag anabledd dysgu neu ddiagnosis o awtistiaeth hefyd gael y gydran symudedd ar y gyfradd uwch.

Mae cyfradd uwch y gydran symudedd yn gallu cael ei thalu o dair oed.

Ewch ar wefan Contact am fwy o wybodaeth am y Lwfans yma, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen: www.contact.org.uk/dla